# Cynllun Arbed Caerau - Canfyddiadau Archwiliad Mewnol

Yn wyneb pryderon parhaus a ddygwyd i sylw'r Cyngor, yn 2018, gofynnodd y Prif Weithredwr ar y pryd i Wasanaeth Archwilio Mewnol Pen-y-bont ar Ogwr gynnal adolygiad i ganfod i ba raddau yr oedd polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor wedi cael eu dilyn neu beidio mewn perthynas â chynllun ariannu Arbed ar gyfer y cyfnod Medi 2012 i Ebrill 2013 yng Nghaerau.

Amlygodd canfyddiadau'r Archwiliad Mewnol (a amlinellir isod) nifer o faterion gweithdrefnol mewnol yn ymwneud ag agweddau ar lywodraethu, gwneud penderfyniadau, caffael, monitro a rheoli'r cyllid yr oedd y Cyngor yn ei weinyddu ar gyfer y cynllun hwn ar y pryd. Does dim tystiolaeth fod y problemau hyn yn gyffredin yn y Cyngor ac er mwyn rhoi sicrwydd, cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o agweddau caffael a llywodraethu 10 cynllun oedd yn cael eu hariannu'n allanol o 2018 ymlaen. Ni chanfuwyd unrhyw broblem. Rhoddwyd gwybod i Archwilio Cymru am y canfyddiadau drwy gydol y gwaith hwn.

## Amcanion a Chwmpas yr Adolygiad

Yn dilyn adolygiad archwilio cychwynnol a gynhaliwyd ar gais y Prif Weithredwr blaenorol mewn perthynas â chyllid Arbed ar gyfer trigolion yng Nghaerau, Maesteg, lluniwyd adroddiad archwilio drafft yn gynnar yn 2019. Daeth yr adroddiad drafft i'r casgliad bod yr adolygiad wedi'i rwystro gan ddiffyg trywydd archwilio clir a'r ffaith nad oedd swyddogion allweddol, oedd yn gysylltiedig ar y pryd, ar gael. Daeth yr adroddiad hefyd i'r casgliad na ellid dod o hyd i dystiolaeth o unrhyw fath o gystadleuaeth, i ddangos gwerth am arian. Nododd y gwaith hefyd fod Cynghorydd yn cymryd rhan yn y prosiect oedd yn Ysgrifennydd / Cyfarwyddwr cwmni oedd yn gwneud y gwaith ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gan nad oedd yr adolygiad cychwynnol yn seiliedig ond ar wybodaeth a gadwyd mewn tri ffolder papur yn unig, gofynnwyd i'r Archwilwyr Mewnol wneud gwaith pellach drwy gyrchu ac adolygu cyfrifon e-bost y Swyddogion blaenorol perthnasol yn ogystal â cheisio siarad â'r Swyddogion dan sylw ar y pryd i gael gweld dilyniant mwy cynhwysfawr o ddigwyddiadau.

Diben yr adolygiad cychwynnol oedd canfod i ba raddau yr oedd polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor wedi cael eu cymhwyso neu beidio mewn perthynas â Chynllun Ariannu Arbed ar gyfer y cyfnod Medi 2012 i Ebrill 2013. Codwyd pryderon neilltuol gan y Prif Weithredwr ar y pryd yn ymwneud yn benodol ag absenoldeb llwybr olrhain fel yr ymddangosai, ac a oedd yna unrhyw amgylchiadau arbennig fyddai'n esbonio hyn.

### Canfyddiadau:

### Llogi Contractwyr

Daeth yr adroddiad archwilio drafft i'r casgliad na chanfuwyd tystiolaeth o unrhyw fath o gystadleuaeth i ddangos gwerth am arian i gefnogi llogi'r contractwyr. Felly, mae gwaith pellach wedi cael ei wneud i ddarganfod sut y cyflogwyd y contractwyr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Nododd y gwaith archwilio cychwynnol fod cwmni, o'r enw Green Renewable Wales Ltd, wedi derbyn cyllid Arbed ar gyfer Caerau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) a nodwyd bod

Cynghorydd, ar y pryd, wedi bod yn Gyfarwyddwr y cwmni hwn ers yr 22[ain] o Ionawr 2010.

Talwyd i Green Renewable Wales Ltd gan CBSP drwy ddwy ffrwd ariannu ar wahân gan Lywodraeth Cymru (LIC):

- Arbed = £49,376 wedi'i ddyfarnu i CBSP ym mis Medi 2012
- ECO-BRI-001 = £259,825 wedi'i ddyfarnu i CBSP ym mis Chwefror 2013

Roedd y cyllid hwn yn cyfateb i £309,201. Nododd dadansoddiad o system ariannol CBSP y talwyd cyfanswm o £316,192 (heb gynnwys TAW) i Green Renewable Wales Ltd rhwng mis Chwefror a mis Mai 2013.

Canfu adolygiad o gyfrifon e-bost dau gyn-weithiwr fod y Cynghorydd dan sylw ym mis Rhagfyr 2009 yn cyfeirio ato'i hun fel Rheolwr Gyfarwyddwr Renewable Wales Ltd mewn e-bost at amrywiol bobl gan gynnwys Swyddogion y Cyngor. Dengys cofnodion Tŷ'r Cwmnïau fod Green Renewable Wales Ltd wedi'i gofrestru ym mis Ionawr 2010 a bod y Cynghorydd wedi'i restru fel Cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd y Cwmni. Mae'r cofnodion hyn hefyd yn dangos bod yna Gyfarwyddwr arall ym mis Gorffennaf 2010. Diddymwyd y cwmni hwn ym mis Tachwedd 2017.

O archwilio cyfrifon e-bost cyn-aelodau'r staff, y cyswllt cyntaf a nodwyd gan Green Renewable Wales Ltd oedd ym mis Tachwedd 2011, pan dderbyniodd y Swyddog e-bost gan y Cyfarwyddwr, yn copïo'r Cynghorydd i mewn, yn atodi papur briffio o'r enw "WalesCo / Green Renewable Wales", oedd yn nodi mai sefydliad nid er elw oedd Green Renewable Wales a phartner datblygu i WalesCo. Roedd arnynt eisiau gweithio gyda CBSP i gyflawni mesurau effeithlonrwydd ynni ym Mhen-y-bont ar Ogwr a dywedent eu bod eisoes yn gweithio gyda sefydliadau cymunedol yn yr ardal.

Dengys cofnodion Tŷ'r Cwmnïau fod WalesCo wedi'i gofrestru fel CBC Cymru (Cwmni Buddsoddi Cymunedol) ym mis Medi 2011 gydag unig Gyfarwyddwr, a ddiddymodd y cwmni ym mis Tachwedd 2016, a bod yr elw oedd yn weddill wedi ei rannu ymhlith amrywiol sefydliadau elusennol.

Ym mis Rhagfyr 2011, cadarnhaodd e-bost gan y Swyddog fod CBSP yn gweithio mewn partneriaeth â WalesCo i gyflwyno bid ar gyfer Caerau 2. Fodd bynnag, ni ellir dod o hyd i unrhyw ddogfennaeth arall i ganfod pwy wnaeth y penderfyniad hwnnw nac ar ba sail. Daethpwyd o hyd i dystiolaeth fod cwmnïau eraill wedi cysylltu â CBSP yn cynnig cynorthwyo gyda bidiau. Rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2011 mae tystiolaeth fod 3 chwmni gwahanol wedi cysylltu â CBSP yn mynegi diddordeb mewn gweithio gyda nhw. Cydnabuwyd y cynigion hyn ond ni ellid dod o hyd i unrhyw gysylltiad pellach.

Canfu'r archwiliad e-bost lawer o negeseuon e-bost rhwng Swyddogion, Cyfarwyddwyr y cwmni a'r Cynghorydd yn defnyddio ei gyfeiriad e-bost CBSP a'i un preifat. Dengys yr e-byst hyn fod yr holl bartïon yn gweithio ar y cyd ar baratoi cais Arbed, yn aml gyda'r Cynghorydd yn gweithredu fel sianel rhwng pawb dan sylw.

Mae'n amlwg, fodd bynnag, oddi wrth y wybodaeth a ganfuwyd yn y ffeiliau a'r negeseuon e-bost, yn ogystal â'r sgyrsiau gyda chyn-weithwyr fod y Cynghorydd yn ymwneud yn glir ag agweddau ar y cynlluniau ariannu, yn enwedig mewn perthynas â Chaerau, er ei fod yn Gyfarwyddwr Green Renewable Wales Ltd.

Ym mis Mehefin 2012, hysbyswyd CBSP bod cais gwreiddiol Arbed yn aflwyddiannus. Er hynny, parhaodd CBSP i weithio gyda Green Renewable Wales

Ltd a WalescCo i gyflwyno ceisiadau pellach pan ddaeth cyllid ychwanegol ar gael. Nid oes tystiolaeth o unrhyw ymarferiad caffael yn cael ei gynnal na bod unrhyw gwmnïau eraill yn cael eu hystyried gan y Cyngor.

**Cyllid**

Oddi wrth y dogfennau sydd ar gael, nodwyd bod LlC wedi cysylltu â CBSP ar yr 2[il] o Awst 2012 gan roi cyfle i wneud cais am gyllid ychwanegol i ategu prosiectau presennol. Gwnaeth swyddogion gais am arian a chafodd ffurflen “Cofnod o Benderfyniad Cynlluniau Dirprwyo Swyddogaethau” ei chwblhau a'i chymeradwyo gan Bennaeth y Gwasanaeth ar y pryd. Roedd y ddogfen hon yn cytuno ar y cynnig ac yn derbyn cyllid grant o £23,800 oedd i fod i leihau’r cyfraniad ariannol oedd ei angen gan berchnogion tai preifat tuag at osod boeleri newydd, gyda’r ffurflen yn nodi bod y gwaith yn cael ei wneud gan WalesCo gyda chefnogaeth CBSP. Ym mis Tachwedd 2012 cynigiodd LlC arian ychwanegol o £25,576 i ariannu eiddo ychwanegol a chwblhawyd ffurflen Cynllun Dirprwyo arall i dderbyn y cyllid, oedd yn nodi bod yr arian yn cael ei ddyfarnu i WalesCo ar gyfer gosod boeleri ac inswleiddio llofftydd. Cyfanswm y dyfarniad felly oedd £49,376 ac roedd yn rhaid gwneud yr hawliad terfynol am y cyllid hwn erbyn Ionawr 2013.

Hawliodd a derbyniodd CBSP y dyfarniad llawn, £49,376, gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2013. Ategwyd yr hawliad a wnaed gan CBSP gan anfoneb oddi wrth Green Renewable Wales Ltd i Wales Community CIC Ltd (WalesCo) yn nodi bod 38 o foeleri wedi'u gosod gan Glamorgan Gas Ltd a bod GRW Ltd wedi darparu gweinyddiaeth a rheolaeth. Cyfanswm yr anfoneb oedd £ 55,314.32 gyda £4,560.00 ohono ar gyfer gweinyddu a rheoli a ddarparwyd gan GRW Ltd. Ni wnaed unrhyw daliad uniongyrchol gan CBSP i WalesCo ac nid yw'n glir pa mor berthnasol yw'r anfoneb ategol oedd yn cyd-fynd â hawliad LlC i'r cynllun hwn. Fodd bynnag, roedd y taliadau a wnaed mewn gwirionedd gan CBSP i Green Renewable Wales Ltd yn rhoi cyfanswm o £56,367.20 (heb gynnwys TAW). Mae hyn £6,991.20 yn fwy na’r cyllid a ddarparwyd gan LlC ac roedd y taliadau’n seiliedig ar 4 anfoneb a gyflwynwyd gan Green Renewable Wales Ltd ar gyfer y gwaith hwn.

Ar y 1[af] o Chwefror 2013 gwnaed cais arall gan CBSP am arian ychwanegol yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei gynnig ar gyfer prosiectau. Roedd y cais ar gyfer insiwleiddio croglofftydd a waliau allanol mewn 25 eiddo yr oedd eu perchnogion yn byw ynddynt yn Heol Caerau ar gyfanswm cost o £317,325. Gofynnwyd i LlC am £259,825 gan fod cyllid Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) o £57,500 eisoes wedi'i nodi. Cymeradwywyd y bid o £259,825 ar y 7[fed] o Chwefror 2013 a chwblhawyd ffurflen Cynllun Dirprwyo yn rhannol. Dywed telerau’r cyllid fod yn rhaid i’r gwaith gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2013.

Roedd y wybodaeth ategol gan LlC yn nodi bod y cyllid hwn wedi'i ddarparu dan faner Arbed er mwyn denu arian effeithlonrwydd ynni i Gymru. Gan y nodwyd bod yr amserlenni'n dynn, nodwyd y dylai trafodaethau â chyflenwyr ynni fod yn mynd rhagddynt eisoes ac mae'r canllawiau hefyd yn nodi mai awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am wneud yr holl waith ac ymgysylltu â thrigolion. Nid oedd canllawiau penodol gan LlC mewn perthynas ag unrhyw drefniadau caffael y dylid eu rhoi yn eu lle. Fodd bynnag, y dull arferol gyda chyllid grant, pan na fo canllawiau ar gael, yw y dilynir Rheolau Contractau a Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor ei hun.

Hawliwyd y ffigur y cytunwyd arno o £259,825 gan CBSP oddi wrth Lywodraeth Cymru ac yna cafodd ei dalu i Green Renewable Wales Ltd mewn 2 daliad a wnaed ym mis Mawrth 2013 ac Ebrill 2013. Ategwyd yr anfonebau gan Green Renewable Wales Ltd i CBSP gan anfonebau oddi wrth gwmnïau amrywiol a ddefnyddiwyd i

wneud y gwaith, gyda £29,750 yn cael ei hawlio'n uniongyrchol gan Green Renewable Wales Ltd ar gyfer rheoli’r prosiect.

Felly, rhwng Chwefror 2013 a Mai 2013, talodd CBSP gyfanswm o £316,192.20 i Green Renewable Wales Ltd (heb gynnwys TAW). Yn seiliedig ar yr anfonebau a ddarparwyd, y cwmnïau canlynol a dderbyniodd y cyllid hwn:

**Tabl 1- Cwmnïau y Talwyd iddynt gan Green Renewable Wales Ltd**

| | Arbed / CESP 11 | Eco-Bri 001 | Total |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Green Renewable Wales Ltd (retained) | 56,367.20 | 29,750.00 | 86,117.20 |
| Wales Co | | 10,000.00 | 10,000.00 |
| Sustainable Building Services (SBS) | | 102,015.00 | 102,015.00 |
| BSS Bridgend | | 37,500.00 | 37,500.00 |
| Tower Energy Contracting | | 78,060.00 | 78,060.00 |
| BCBC Building Regs | | 2,500.00 | 2,500.00 |
| | | | |
| | **56,367.20** | **259,825.00** | **316,192.20** |

Nodwyd felly fod tair dogfen Cynllun Dirprwyo wedi'u cwblhau i dderbyn y cyllid grant. Fodd bynnag, ni chrybwyllwyd Green Renewable Wales Ltd er bod cyfeiriad at WalesCo ar ddwy o'r ffurflenni. Roedd dwy o'r tair ffurflen wedi'u hawdurdodi a'u llofnodi gan y “penderfynwr” sef Pennaeth y Gwasanaeth ar y pryd, tra nad oedd y drydedd ffurflen wedi'i chwblhau’n llawn na'i llofnodi. Fodd bynnag, nodai’r bid a gyflwynwyd ar gyfer trydedd elfen y gwaith mai Green Renewable Wales Ltd oedd partner CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

Ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth o unrhyw ffurflenni Cynllun Dirprwyo yn cael eu cwblhau ar gyfer y penderfyniad i ddyfarnu’r gwaith. Felly eto, nid yw’n glir sut, pryd na phwy wnaeth y penderfyniadau i ofyn i Green Renewable Wales Ltd wneud y gwaith.

Ni chanfuwyd unrhyw gontract, dogfennaeth gyfreithiol, archebion nac unrhyw dystiolaeth o weithgarwch caffael mewn perthynas â'r gwaith hwn. O ganlyniad, ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth o unrhyw wiriadau diwydrwydd dyladwy ar y cwmni neu gwmnïau a oedd yn mynd i wneud y gwaith.

### Rôl yr Aelod Etholedig

Roedd yr adroddiad yn dangos bod rôl y Cynghorydd yn dod yn fwyfwy aneglur a chyfaddefodd swyddogion, er eu bod yn ymwybodol o gysylltiad rhwng Green Renewable Wales Ltd a’r Cynghorydd, nad oeddent yn gwybod maint y cysylltiad.

Mae’n ofynnol i bob Aelod ac Uwch Swyddog ddatgan unrhyw drafodion parti cysylltiedig y maent yn eu cael gyda’r Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol fel rhan o’r broses o gau’r cyfrifon sy’n cynnwys disgrifiad o’r trafodion a’r symiau dan sylw.

### Cyllid Dilynol

Oddi wrth y cyfrifon e-bost a adolygwyd, canfuwyd bod deialog wedi bod yn mynd ymlaen am nifer o fisoedd, ar ôl talu i Green Renewable Wales Ltd, rhwng swyddogion CBSP a Chyfarwyddwyr y cwmni cyn i’r eiddo o dan gynllun ariannu

Arbed yng Nghaerau gael eu gorffen yn foddhaol a'u llofnodi. Ymddangosai fod oedi cyn cwblhau gwaith yn rhai o'r tai yn ogystal â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad drafft cychwynnol lle roedd Green Renewable Wales Ltd wedi gwneud newidiadau i'r rhestr / rhaglen eiddo wreiddiol. Er ei bod yn ymddangos nad oedd LlC yn poeni am y newidiadau hyn, mae'n dangos na chadwodd CBSP reolaeth a chyfeiriad digonol ar y ffordd yr oedd y grant yn cael ei wario. Er bod tystiolaeth fod Swyddogion Rheoli Adeiladu yn archwilio elfennau o'r gwaith, nid yw'n glir pa archwiliadau eraill o waith oedd yn cael eu cynnal gan staff CBSP i fonitro cynnydd ac i gefnogi taliadau. Dengys e-byst fod y cyn Uwch Swyddog Strategaeth wedi gofyn am adroddiadau Syrfewyr a Thystysgrifau Perfformiad Ynni (EPCs) gan GRW er mwyn cefnogi talu anfonebau.

Dengys llinyn e-bost o fis Mehefin 2013 fod problemau'n dal i fodoli gyda'r ddau gynllun a ariannwyd ar ôl talu i Green Renewable Wales Ltd. Ym mis Tachwedd 2013 cyhoeddodd LlC gyllid pellach o dan Arbed.

Ni wnaed taliadau pellach gan CBSP i Green Renewable Wales Ltd.

Dengys y canfyddiadau fod CBSP yn cydnabod bod anawsterau gyda'r broses a fabwysiadwyd ar gyfer cynlluniau blaenorol ac felly, wrth symud ymlaen, bod caffael priodol i gael ei gynnal, gan gadw at gyngor gan Swyddogion Caffael y Cyngor. Mae'r camau gweithredu hyn yn cadarnhau'r honiad nad oedd unrhyw ymwneud â chaffael yn flaenorol ac felly na chydymffurfiwyd â rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor.

**Casgliadau**

Nododd yr adroddiad nifer o bryderon sylweddol yn ymwneud ag agweddau llywodraethu, gwneud penderfyniadau, caffael, monitro a rheoli Cynllun Arbed ynghyd ag ymddygiad a rôl y Cynghorydd fel un o Gyfarwyddwyr Green Renewable Wales Ltd.

**Casgliadau Cryno**

**Agweddau Llywodraethu, Gwneud Penderfyniadau, Caffael, Monitro a Rheoli'r Cynllun**

- Roedd Llywodraethu yn y Cyngor wedi methu mewn perthynas â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â:
    - Rheolau Gweithdrefnau Contractau
    - Prosesau rheoli a goruchwylio contractau
    - Rheolau Gweithdrefnau Ariannol
    - Codau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion a
    - Phrotocol ar gyfer cydberthnasau rhwng aelodau a swyddogion
    - Prosesau gwneud penderfyniadau a dogfennaeth
    - Rheolaeth a Goruchwyliaeth

- Ni ddilynwyd proses gaffael ac ni welwyd tystiolaeth o wiriadau diwydrwydd dyladwy ar gyfer y cwmnïau a ddefnyddiwyd i wneud y gwaith hwn.

- Nid yw'n glir pa arolygiadau o waith oedd yn cael eu cynnal gan staff CBSP i fonitro cynnydd ac i gefnogi'r taliadau a wnaed i Green Renewable Wales Ltd.

- Nid oedd tystiolaeth glir o sut, pryd na phwy a wnaeth benderfyniadau mewn perthynas â'r cynllun hwn.

**Ymddygiad y Cynghorydd**

- Roedd y Cynghorydd yn Gyfarwyddwr Green Renewable Wales Ltd y talwyd £316,192.20 (heb gynnwys TAW) iddo gan CBSP rhwng Chwefror a Mai 2013.

- Roedd nifer o enghreifftiau yn dangos achosion posibl o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau.

**Casgliadau Manwl**

Dechreuodd CBSP weithio gyda Green Renewable Wales Ltd a'u partner WalesCo ar amrywiol Fidiau Effeithlonrwydd Ynni i Lywodraeth Cymru o fis Rhagfyr 2011. Roedd tystiolaeth fod 3 chwmni arall wedi cynnig gweithio gyda CBSP ar fidiau o'r math hwn yn 2011. Ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth ynghylch sut, pryd na phwy a wnaeth y penderfyniadau i'r Cyngor weithio gyda Green Renewable Wales Ltd a'u partner WalesCo.

Nid oes tystiolaeth bod ymarferiad caffael wedi cael ei gynnal na bod unrhyw gwmnïau eraill wedi cael eu hystyried gan y Cyngor.

Talwyd £316,192.20 (heb gynnwys TAW) i Green Renewable Wales Ltd gan CBSP rhwng Chwefror a Mai 2013. Roedd hyn am waith a gwasanaethau a ddarparwyd mewn perthynas â:

- Boeleri newydd ac insiwleiddio llofftydd mewn 38 eiddo preifat yng Nghaerau, Maesteg.
- Insiwleiddio a boeleri newydd mewn 25 eiddo preifat hefyd yng Nghaerau, Maesteg.

**Agweddau Llywodraethu, Gwneud Penderfyniadau, Caffael, Rheoli a Monitro'r Cynllun.**

Nid oes tystiolaeth bod ymarferiad caffael wedi'i gynnal cyn i CBSP ymgysylltu â Green Renewable Wales Ltd ar gyfer y ddau gynllun a gyflawnwyd ganddynt. Mae hyn yn groes i reolau'r Cyngor, yn enwedig Rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor. Gyda golwg ar yr ail floc ariannu, mae'n amlwg bod LlC wedi rhoi amserlenni byr iawn rhwng dyfarnu'r arian a'r adeg yr oedd yn rhaid ei wario (7 wythnos). Ni fyddai dichon cynnal ymarferiad caffael ond dylid bod wedi dilyn proses Eithrio'r Cyngor o leiaf er mwyn gwneud penderfyniad oedd yn cael ei ddogfennu.

Cwblhawyd tair dogfen Cynllun Dirprwyo i dderbyn y cyllid grant, gyda dwy yn nodi bod y gwaith i gael ei wneud gan WalesCo. Nid oeddent yn sôn am ran Green Renewable Wales Ltd ac ni ddatgelwyd y byddai'r taliadau'n cael eu gwneud iddynt. Cafodd dwy o'r tair ffurflen eu hawdurdodi a'u llofnodi gan y "penderfynwr" sef Pennaeth y Gwasanaeth ar y pryd. Nid oedd y drydedd ffurflen wedi'i chwblhau'n llawn na'i llofnodi ond roedd y cais ar gyfer yr elfen hon yn nodi mai'r partner oedd Green Renewable Wales Ltd.

Ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth o unrhyw ffurflenni Cynllun Dirprwyo yn cael eu cwblhau ar gyfer y penderfyniad i ddyfarnu'r gwaith. Felly eto, nid yw'n glir sut, pryd

na phwy wnaeth y penderfyniadau i ofyn i Green Renewable Wales Ltd wneud y gwaith.

Ni chanfuwyd unrhyw gontract, dogfennaeth gyfreithiol, archebion na thystiolaeth o weithgarwch caffael mewn perthynas â'r gwaith hwn. O ganlyniad, ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth o unrhyw wiriadau diwydrwydd dyladwy ar y cwmni neu gwmnïau a oedd yn mynd i wneud y gwaith.

Roedd Green Renewable Wales Ltd wedi gwneud newidiadau i'r rhestr / rhaglen wreiddiol o eiddo oedd yn y bid. Er ei bod yn ymddangos nad oedd LlC yn poeni am y newidiadau hyn, mae'n dangos na chadwodd CBSP reolaeth a chyfeiriad digonol ar y gwaith na'r ffordd yr oedd y grant yn cael ei wario.

Er bod tystiolaeth fod Swyddogion Rheoli Adeiladu yn archwilio elfennau o'r gwaith, nid yw'n glir pa archwiliadau eraill o waith oedd yn cael eu cynnal gan staff CBSP i fonitro cynnydd ac i gefnogi taliadau. Mae yna e-byst sy'n dangos bod oedi wedi bod wrth gwblhau gwaith mewn rhai tai a bod y cyn Uwch Swyddog Strategaeth wedi gofyn am adroddiadau Syrfewyr a Thystysgrifau Perfformiad Ynni oddi wrth Green Renewable Wales Ltd cyn ac ar ôl iddynt gael eu talu.

Roedd CBSP yn cydnabod bod anawsterau gyda'r broses a fabwysiadwyd ar gyfer cynlluniau blaenorol ac felly, wrth symud ymlaen, y câi caffael priodol ei gynnal. Mae hyn yn cadarnhau na fu cysylltiad blaenorol â chaffael ac felly na chydymffurfiwyd â rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor. Ni wnaed unrhyw daliadau pellach gan CBSP i Green Renewable Wales Ltd.

Fel rhan o'r gofyniad i ddatgan buddiannau personol datganodd y Cynghorydd yn gywir ei fod yn Gyfarwyddwr Green Renewable Wales Ltd a SBS Ltd ynghyd â chwmnïau eraill. Fodd bynnag, dywedodd nad oedd SBS Limited yn masnachu fel cwmni tra roedd anfonebau'n dangos fel arall.

Roedd yr anfonebau a ddarparwyd i gefnogi taliadau yn dangos, o'r £316,192.20 a dalwyd i Green Renewable Wales Ltd, bod y cwmni wedi cadw £86,117.20 gyda £102,015 yn cael ei dalu i SBS Ltd. Felly, cadwodd y cwmnïau hyn gyfanswm o £188,132.20.

Ni ellir cadarnhau a oedd BSS Pen-y-bont ar Ogwr, a ddarparodd ddwy o'r anfonebau ategol, yn bodoli mewn gwirionedd. Nid oedd cwmni o'r enw hwn wedi'i gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau ac nid oedd BSS Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i gofrestru ar gyfer TAW er y codwyd TAW. Nodwyd bod un o anfonebau BSS Pen-y-bont ar Ogwr yn dyfynnu rhif cofrestru TAW 8 digid annilys ac nad oedd yr anfoneb arall yn cynnwys rhif cofrestru TAW. Nid oedd logo cwmni ac ni nodwyd unrhyw fanylion talu na chyfrif banc. Y cyfeiriad ar yr anfoneb oedd Main Avenue, Ystâd Ddiwydiannol Bracla ond ni allai chwiliad Google ddod o hyd i unrhyw olion o gwmni o'r enw hwnnw yn y cyfeiriad hwnnw.

Mae'r anfonebau gan SBS yn nodi mai cyfeiriad y cwmni yw Canolfan Arloesi Uned 4c, Parc Gwyddoniaeth, Pen-y-bont ar Ogwr sydd hefyd yn ganolfan i Green Renewable Wales Ltd.

**Argymhellion**

Bydd y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn er mwyn penderfynu ar unrhyw gamau pellach.

Mae angen ystyried y materion ehangach a nodir yn yr adroddiad er mwyn canfod yr hyn sydd angen ei weithredu/newid er mwyn lleihau'r risg i achos tebyg o fethiant mewn Llywodraethu ddigwydd yn y Cyngor, e.e. gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- Rheolau gweithdrefnau contractau
- Prosesau rheoli a goruchwylio contractau
- Rheolau gweithdrefnau ariannol
- Codau ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion a
- Phrotocol ar gyfer cydberthnasau rhwng aelodau a swyddogion
- Prosesau gwneud penderfyniadau a dogfennaeth
- Rheolaeth a goruchwyliaeth

Rhannwyd yr adroddiad gyda'r Heddlu ac ar ôl ystyriaeth ddyledus maent wedi penderfynu nad yw'n briodol iddynt gymryd unrhyw gamau.

Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r holl argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad ac adroddwyd yn gywir ac yn briodol am y materion yn ymwneud ag ymddygiad y Cynghorydd wrth Ombwdsmon Cyhoeddus Cymru er mwyn iddo ymchwilio iddynt.